
 Hanfodion Dylunio T217

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r byd yn llawn gwrthrychau a ddyluniwyd, o nendyrau i gynhyrchion sy'n ffitio yng nghledr eich llaw. Mae dylunwyr wedi defnyddio eu sgiliau i drosi syniadau ac anghenion yn wrthrychau rydych yn eu gweld o'ch cwmpas. Ar y cwrs hwn, bydd myfyrwyr yn dysgu am sgiliau ac arferion hanfodol dylunwyr. Byddant hefyd yn datblygu eu gallu eu hunain i nodi problemau dylunio, diwallu anghenion darpar ddefnyddwyr a chreu a mynegi atebion dylunio newydd. Gellir cymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau y byddant yn eu meithrin mewn nifer o feysydd dylunio, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol mewn ystod eang o ddiwydiannau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc sy'n ymwneud â dylunio neu dystiolaeth o brofiad gwaith sylweddol mewn pwnc sy'n berthnasol i ddylunio
- profiad dylunio ymarferol
- diddordeb mewn defnyddio technolegau digidol ac adnoddau rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer addysgu
- y gallu i helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau dylunio megis sgiliau arlunio, modelu cyfrifiadurol 3D, modelu ffisegol 3D, ymchwilio a meddwl yn greadigol
- parodrwydd i ymgysylltu â nifer o ddisgyblaethau dylunio a deall dull cyffredinol o fynd i'r afael ag addysgu dylunio.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu dylunio ar lefel israddedig.

Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd disgwyl i Ddarlithwyr Cyswllt redeg ysgol ddydd ar ddechrau'r modiwl a dau diwtorial wyneb yn wyneb. Byddant yn darparu cymorth tiwtora ychwanegol gan ddefnyddio ystafelloedd tiwtorial ar-lein sy'n galluogi Darlithwyr Cyswllt i gwrrd (a recordio) cyfarfodydd cydamserol gyda myfyrwyr. Bydd myfyrwyr hefyd yn defnyddio gofod stiwdio rhithiwr (OpenDesignStudio), a bydd disgwyl i Ddarlithwyr Cyswllt rhyngweithio ychydig gyda'r rhyngwyneb hwn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud y gweithgareddau a osodir drwy gydol y modiwl. Bydd Darlithwyr Cyswllt yn asesu 4 aseiniad gan fyfyrwyr ('Aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid' neu TMAs).

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	6
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.